

Sunday 25th January 2026
The Conversion of Saint Paul

The collect of the day

Almighty God, you caused the light of the gospel to shine throughout the world through the preaching of your servant Saint Paul : grant that we who celebrate his wonderful conversion may follow him in bearing witness to your truth; through Jesus Christ our Lord, to whom with you and the Holy Spirit be all honour and glory, now and for ever. AMEN

The reading from Acts
(9.1-22)

Saul, still breathing threats and murder against the disciples of the Lord, went to the high priest and asked him for letters to the synagogues at Damascus, so that if he found any who belonged to the Way, men or women, he might bring them bound to Jerusalem.

Now as he was going along and approaching Damascus, suddenly a light from heaven flashed around him. He fell to the ground and heard a voice saying to him, 'Saul, Saul, why do you persecute me?'

He asked, 'Who are you, Lord?'

The reply came, 'I am Jesus, whom you are persecuting. But get up and enter the city, and you will be told what you are to do.'

The men who were travelling with him stood speechless because they heard the voice but saw no one. Saul got up from the ground, and though his eyes were open, he could see nothing; so they led him by the hand and brought him

into Damascus. For three days he was without sight, and neither ate nor drank.

Now there was a disciple in Damascus named Ananias. The Lord said to him in a vision, 'Ananias.'

He answered, 'Here I am, Lord.'

The Lord said to him, 'Get up and go to the street called Straight, and at the house of Judas look for a man of Tarsus named Saul. At this moment he is praying, and he has seen in a vision a man named Ananias come in and lay his hands on him so that he might regain his sight.'

But Ananias answered, 'Lord, I have heard from many about this man, how much evil he has done to your saints in Jerusalem; and here he has authority from the chief priests to bind all who invoke your name.'

But the Lord said to him, 'Go, for he is an instrument whom I have chosen to bring my name before Gentiles and kings and before the people of Israel; I myself will show him how much he must suffer for the sake of my name.'

So Ananias went and entered the house. He laid his hands on Saul and said, 'Brother Saul, the Lord Jesus, who appeared to you on your way here, has sent me so that you may regain your sight and be filled with the Holy Spirit.'

And immediately something like scales fell from his eyes, and his sight was restored. Then he got up and was baptized, and after taking some food, he regained his strength.

For several days he was with the disciples in Damascus, and immediately he began to proclaim Jesus in the

synagogues, saying, 'He is the Son of God.'

All who heard him were amazed and said, 'Is not this the man who made havoc in Jerusalem among those who invoked this name? And has he not come here for the purpose of bringing them bound before the chief priests?'

Saul became increasingly more powerful and confounded the Jews who lived in Damascus by proving that Jesus was the Messiah.

The Psalm
(67)

God be gracious to / us and / bless us:
and make his / face to / shine up/on us,
That your way may be / known upon /
earth: your saving / power a/mong all /
nations. Let the peoples / praise you, O /
God: let / all the / peoples / praise you.

O let the nations re/joyce and be /
glad: for you will judge the peoples
righteously * and govern the / nations /
upon / earth. Let the peoples / praise
you, O / God: let / all the / peoples /
praise you.

Then shall the earth bring / forth her /
increase: and God, our / own / God, will
/ bless us. God / will / bless us: and all
the / ends of the / earth shall / fear him.

The reading from Galatians
(1.11-16a)

I want you to know, brothers and sisters, that the gospel which was proclaimed by me is not of human origin; for I did not receive it from a human source, nor was I taught it, but I received it through a revelation of Jesus Christ.

You have heard, no doubt, of my earlier life in Judaism. I was violently persecuting the church of God and was trying to destroy it. I advanced in Judaism beyond many among my people of the same age, for I was far more zealous for the traditions of my ancestors.

But when God, who had set me apart before I was born and called me through his grace, was pleased to reveal his Son to me, so that I might proclaim him among the Gentiles.

The reading from the Gospel according to Saint Matthew
(19.27-30)

Peter said to Jesus, 'Look, we have left everything and followed you. What then will we have?'

Jesus said to them, 'Truly I tell you, at the renewal of all things, when the Son of Man is seated on the throne of his glory, you who have followed me will also sit on twelve thrones, judging the twelve tribes of Israel. And everyone who has left houses or brothers or sisters or father or mother or children or fields, for my name's sake, will receive a hundredfold, and will inherit eternal life. But many who are first will be last, and the last will be first.'

The collect following communion

Holy Father, you gathered us here around the table of your Son to share this meal with all your household : in that new world where you reveal the fullness of your peace, gather people of every race and language to share with Paul and all your saints the eternal banquet of Jesus Christ our Lord. AMEN

Dydd Sul 25^{ain} Ionawr 2026 Troedigaeth Sant Paul

Colect y dydd

Hollalluog Dduw a barodd i oleuni'r efengyl lewyrchu trwy'r holl fyd trwy bregethu dy was Sant Paul, caniatâ i ni sy'n dathlu ei dröedigaeth ryfeddol ei ganlyn trwy dystiolaethu i'th wirionedd trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân bob anrhydedd a gogoniant, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Actau (9.1-22)

Yr oedd Saul yn dal i chwythu bygythion angheuol yn erbyn disgyblion yr Arglwydd, ac fe aeth at yr archoffeiriad a gofyn iddo am lythyrau at y synagogau yn Namascus, fel os byddai'n cael hyd i rywrai o bobl y Ffordd, yn wŷr neu'n wragedd, y gallai eu dal a dod â hwy i Jerwsalem.

Pan oedd ar ei daith ac yn agosáu at Ddamascus, yn sydyn fflachiodd o'i amgylch oleuni o'r nef. Syrthiodd ar lawr, a chlywodd lais yn dweud wrtho, "Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i?"

Dywedodd yntau, "Pwy wyt ti, Arglwydd?"

Ac ebe'r llais, "Iesu wyf fi, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid. Ond cod, a dos i mewn i'r ddinas, ac fe ddywedir wrthynt beth sy raid iti ei wneud."

Yr oedd y dynion oedd yn cyd-deithio ag ef yn sefyll yn fud, yn clywed y llais ond heb weld neb. Cododd Saul oddi ar lawr, ond er bod ei lygaid yn agored ni allai weld dim. Arweiniasant ef gerfydd ei law i mewn i Ddamascus. Bu am dridiau heb weld, ac ni

chymerodd na bwyd na diod.

Yr oedd rhyw ddisgybl yn Namascus o'r enw Ananias, a dywedodd yr Arglwydd wrtho ef mewn gweledigaeth, "Ananias."

Dywedodd yntau, "Dyma fi, Arglwydd."

Ac meddai'r Arglwydd wrtho, "Cod, a dos i'r stryd a elwir Y Stryd Union, a gofyn yn nhŷ Jwdas am ddyn o Darsus o'r enw Saul; cei hyd iddo yno, yn gweddïo; ac y mae wedi gweld mewn gweledigaeth ddyn o'r enw Ananias yn dod i mewn ac yn rhoi ei ddwylo arno i roi ei olwg yn ôl iddo."

Atebodd Ananias, "Arglwydd, yr wyf wedi clywed gan lawer am y dyn hwn, faint o ddrwg y mae wedi ei wneud i'th saint di yn Jerwsalem. Yma hefyd y mae ganddo awdurdod oddi wrth y prif offeiriad i ddal pawb sy'n galw ar dy enw di."

Ond dywedodd yr Arglwydd wrtho, "Dos di; llestr dewis i mi yw hwn, i ddwyn fy enw gerbron y Cenhedloedd a'u brenhinoedd, a cherbron plant Israel. Dangosaf fi iddo faint sy raid iddo'i ddiodeff dros fy enw i."

Aeth Ananias ymaith ac i mewn i'r tŷ, a rhoddodd ei ddwylo arno a dweud, "Y brawd Saul, yr Arglwydd sydd wedi yr un a ymddangosodd iti ar dy ffordd yma – er mwyn iti gael dy olwg yn ôl, a'th lenwi â'r Ysbryd Glân."

Ar unwaith syrthiodd rhywbeth fel cen oddi ar ei lygaid, a chafodd ei olwg yn ôl. Cododd, ac fe'i bedyddiwyd, a chymerodd luniaeth ac ymgryfhaodd. Bu gyda'r disgyblion oedd yn Namascus am rai dyddiau, ac ar unwaith dechreuodd

bregethu Iesu yn y synagogau, a chyhoeddi mai Mab Duw oedd ef.

Yr oedd pawb oedd yn ei glywed yn rhyfeddu. "Onid dyma'r dyn," meddent, "a wnaeth ddifrod yn Jerwsalem ar y rhai sy'n galw ar yr enw hwn? Ac onid i hyn yr oedd wedi dod yma, sef i fynd â hwy yn rhwym at y prif offeiriad?"

Ond yr oedd Saul yn ymrymuso fwyfwy, ac yn drysu'r Iddewon oedd yn byw yn Namascus wrth brofi mai Iesu oedd y Meseia.

Y Salm (67)

Bydded Duw yn drugarog wrthym a'n bendithio, bydded llewyrch ei wyneb arnom, er mwyn i'w ffyrdd fod yn wybyddus ar y ddaear, a'i waredigaeth ymysg yr holl genhedloedd. Bydded i'r bobloedd dy foli, O Dduw, bydded i'r holl bobloedd dy foli di.

Bydded i'r cenhedloedd lawenhau a gorfoleddu, oherwydd yr wyt ti'n barnu pobloedd yn gywir, ac yn arwain cenhedloedd ar y ddaear. Bydded i'r bobloedd dy foli, O Dduw, bydded i'r holl bobloedd dy foli di.

Rhoes y ddaear ei chnwd; Duw, ein Duw ni, a'n bendithiodd. Bendithiodd Duw ni; bydded holl gyrrau'r ddaear yn ei ofni.

Darlleniad o Galatiaid (1.11-16a)

Yr wyf am roi ar ddeall i chwi, gyfeillion, am yr Efengyl a bregethwyd gennyf fi, nad rhywbeth dynol mohoni. Oherwydd nid ei derbyn fel traddodiad dynol a wneuthum, na chael fy nysgu ynddi chwaith; trwy ddatguddiad Iesu Grist y cefais hi.

Oherwydd fe glywsoch am fy ymarweddiad gynt yn y grefydd Iddewig, imi fod yn erlid eglwys Dduw i'r eithaf ac yn ceisio'i difrodi hi, ac imi gael y blaen, fel crefyddwr Iddewig, ar gyfoedion lawer yn fy nghenedl, gan gymaint mwy fy sêl dros draddodiadau fy hynafiaid.

Ond dyma Dduw, a'm neilltuodd o groth fy mam ac a'm galwodd trwy ei ras, yn dewis datguddio ei Fab ynof fi, er mwyn i mi ei bregethu ymhlith y Cenhedloedd.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Mathew (19.27-30)

Yna atebodd Pedr ef, "Dyma ni wedi gadael pob peth a'th ganlyn di. Beth felly a gawn ni?"

Dywedodd Iesu wrthynt, "Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich, pan enir yr oes newydd, pan fydd Mab y Dyn yn eistedd ar ei orsedd ogoneddus, byddwch chwi a'm canlynodd i hefyd yn eistedd ar ddeuddeg gorsedd gan farnu deuddeg llwyth Israel. A phob un a adawodd dai neu frodyr neu chwiorydd neu dad neu fam neu blant neu diroedd er mwyn fy enw i, caiff dderbyn ganwaith cymaint ac etifeddu bywyd tragwyddol. Ond bydd llawer o'r rhai blaenaf yn olaf, ac o'r rhai olaf yn flaenaf."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Sanctaidd Dad, a'n cynullaist ni yma o gwmpas bwrdd dy Fab i rannu'r pryd bwyd hwn â'th holl deulu : cynnull ynghyd, yn y byd newydd hwnnw lle y datguddi gyflawnder dy dangnefedd, bobloedd o bob hil ac iaith i rannu gyda Paul a'th holl saint wledd dragwyddol Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN